Cynllun Tymor

i Rieni Cyfnod Sylfaen



Dosbarth Derbyn:
Mrs Laura Davies
Dosbarth Meithrin:
Mrs Delyth Dempsey Jones

Tymor Hydref/Nadolig 2024

Y Pedwar Diben

Bydd y Cwricwlwm Newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm yn newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas.

Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- *yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*
- *yn gyfranwyr metrus, creadigol*
- *yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus*
- *yn unigolion iach, hyderus*

Bydd yr agweddau uchod yn cael sylw blaenllaw yn ein cynlluniau ac rydym yn teimlo'n eiddgar ac yn hyderus y gallwn feithrin y sgiliau hyn yn ein plant.

I wybod mwy am y Cwricwlwm Newydd, sganiwch y côd isod:

Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi ebostio athrawes dosbarth eich plentyn.

Thema: Dwylo'r Enfys·



Y Chwe Maes Dysgu:



Iechyd a Lles: Bydd iechyd a lles y plant yng nghalon ein cynlluniau y tymor hwn wrth i'r plant ddod i arfer yn eu dosbarth newydd· Rhown sylw ar ddiogelwch ac hylendid yn ogystal â datblygu hyder y plant· Yn ystod sesiynau amser cylch, byddwn yn annog y plant i fynegi eu teimladau a'u hemosiynau ac yn defnyddio stori'r Anghenfil Lliw i'n helpu· Sgiliau sylfaennol chwaraeon, gemau a dilyn cyfarwyddiadau fydd cynnwys ein gwersi Addysg Gorfforol y tymor hwn wrth i blant dysgu gemau newydd, arbrofi gyda offer a dysgu'r sgiliau personol a chymdeithasol sy'n ymwneud â chwaraeon·

Iaithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Does dim byd gwell na gweld y plant yn dysgu'r iaith Gymraeg· Ceisiwn hybu hyn drwy amrywiaeth eang o weithgareddau o ganu i ddysgu patrymau brawddeg wythnosol· Byddwn yn mwynhau gwrando a thrafod storiau yn ddyddiol fel rhai Elfed yr Eliffant o fewn y thema yma· Defnyddiwn raglenni ffonolegol megis Tric a Chlic i ddatblygu eu sgiliau adnabod llythrennau a darllen·

Bydd cyfleon lu i'n dysgwyr greu marciau, datblygu medrau motor mân a'r gallu i ddal pensil a ffurfio llythrennau fel y Sylfaen ar gyfer ysgrifennu· Addysgwn y plant hefyd i gyfathrebu drwy'r iaith Makaton a byddwn yn canolbwyntio ar arwydd newydd yn wythnosol ac yn ei ddefnyddio yn ddyddiol·

Mathemateg a Rhifedd: Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfrif, adnabod rhifau a deall eu gwerth, trefnu rhifau ac yna adio a thynnu gyda phlant hŷn yr adran· Manteisiwn ar bob cyfle i'r plant weithio'n ymarferol, yn drawsgwricwlaidd a thrwy eu chwarae; boed hynny'n cyfrif a didoli yn y tŷ bach twt neu adeiladu a mesur tŵr yn y blociau·



Y Celfyddydau Mynegiannol: Fel ddywed yr ymadrodd; 'mae canu'n dda i'r enaid' a byddwn yn dysgu caneuon actol, tymhorol a rhif ac yn paratoi ar gyfer ein cyngerdd Nadolig· Bydd cyfle i ymateb yn greadigol trwy ddawns a chelf i'r 'Hydref' gan Vivaldi a'n prif ffocws cerddorol fydd cadw curiad·Byddwn yn cadw curiad i wahanol fathau o gerddoriaeth a perfformio caneuon thematic ar gyfer Nadolig· Rhoddwn gyfle i'r plant arbrofi'n greadigol wrth ddylunio a chreu- mae'r plant bob amser yn falch o'u campweithiau sy'n cael eu harddangos!

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Byddwn yn ennyn chwilfrydedd y plant a meithrin eu sgiliau i ddysgu'n annibynnol drwy amrywiaeth o weithgareddau, ymchwiliadau ac arbrofion cyffrous fel cymysgu deunyddiau a lliwiau i greu botel synhwyrol arbennig· Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau fframwaith cymhwysedd digidol drwy gasglu data, codio, creu a golygu a thrafod diogelwch y we, yn ogystal a defnyddio apiau i gefnogi ein dysgu·

Dyniaethau: Edrychwn ymlaen i ddysgu ac i werthfawrogi y byd o'n cwmpas· Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i addysgu yn yr awyr agored gan wneud llu o weithgareddau trawsgwricwlaidd yn Ysgol y Goedwig· Byddwn yn arsylwi'r newidiadau i fyd natur wrth ddysgu am y tymhorau a'r tywydd, ac effaith hyn ar fywyd gwyllt·

